Beth yw RAIB?

Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffordd (RAIB) yw'r corff annibynnol sy'n ymchwilio i ddamweiniau rheilffordd ar gyfer y DU.

Mae RAIB yn ymwneud ag ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau ar:

- rwydweithiau rheilffordd cenedlaethol ym Mhrydain a Gogledd Iwerddon;
- twnnel y Sianel (ar y cyd â'r corff cyfatebol yn Ffrainc);
- systemau tanddaearol Llundain a Glasgow a systemau metro eraill;
- tramffyrdd;
- rheilffyrdd treftadaeth (gan gynnwys systemau leiniau bach cul sydd dros 350mm o led); a
- systemau sy'n cael eu gyrru ar geblau 1km neu fwy.

Diben ymchwiliad RAIB yw gwella diogelwch ar reilffyrdd, ac atal damweiniau eraill rhag digwydd.

Mae RAIB yn cyflawni hyn trwy ddynodi achos damweiniau ynghyd ag unrhyw ffactorau eraill a wnaeth gyfrannu at y digwyddiad neu a wnaeth y canlyniadau'n waeth, fel ffactorau technegol neu weithredol neu rai'n deillio o systemau rheoli.

Mae ymchwiliadau RAIB yn hollol annibynnol ac maent yn canolbwyntio'n unig ar wella diogelwch. Nid yw RAIB yn rhannu bai neu atebolrwydd nac yn gorfodi'r gyfraith nac yn erlyn.

Sut mae RAIB wedi ei drefnu?

Mae RAIB yn annibynnol ar y diwydiant rheilffyrdd, rheoleiddwyr diogelwch a chyrff erlyn. Yn yr un modd â'r Canghennau Ymchwilio i Ddamweiniau Awyr a Morol (AAIB a MAIB) mae RAIB yn rhan o'r Adran Drafnidiaeth, ond mae'n swyddogaeth annibynnol: mae'r Prif Arolygydd yn rhoi adroddiadau ar ymchwiliadau i ddamweiniau yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth.

Pwy sy'n cynnal ymchwiliadau RAIB?

Er mwyn cynnal ei ymchwiliadau mae RAIB wedi penodi a hyfforddi Arolygwyr a recriwtiwyd o'r diwydiant rheilffyrdd a chyrff ymchwilio eraill. Maent yn brofiadol, mae ganddynt gymysgedd eang o sgiliau ar draws y diwydiant rheilffyrdd ac maent wedi eu hyfforddi mewn technegau ymchwilio.

Mae gan holl arolygwyr RAIB gerdyn adnabod y byddant yn ei ddangos i chi fel modd o gyflwyno eu hunain.

Beth yw pwerau RAIB?

Mae pwerau RAIB a'i Arolygwyr – a'r fframwaith ar gyfer rhoi adroddiadau ar ddamweiniau ac ymchwilio iddynt – yn cael eu nodi yn y Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Trafnidiaeth 2003 ac yn y Rheoliadau Rheilffyrdd (Ymchwilio a Chyflwyno Adroddiadau am Ddamweiniau) 2005.

Mae gan Arolygwyr RAIB y pŵer i:

- gael mynediad i eiddo, tir neu gerbydau'r rheilffyrdd;
- atafaelu unrhyw beth sy'n ymwneud â'r ddamwain a gwneud cofnodion;
- gofyn am fynediad at gofnodion a gwybodaeth a'u datgelu; ac
- ei gwneud yn ofynnol i bobl ateb cwestiynau a rhoi gwybodaeth am unrhyw beth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad.

Sut gallaf gysylltu â RAIB?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am RAIB neu ei ymchwiliadau, cysylltwch â RAIB gan ddefnyddio'r wybodaeth isod.

Gellir dod o hyd i Gyfarwyddyd ar y Rheoliadau Rheilffyrdd (Ymchwilio a Chyflwyno Adroddiadau am Ddamweiniau) 2005 ar www.raib.gov.uk

RAIB
Rail Accident Investigation Branch

Eich datganiad tyst

Taflen 02

Department for Transport

Rail Accident Investigation Branch

The Wharf
Stores Road
Derby
DE21 4BA

Teleffon: 01332 253300
Ffacs: 01332 253301
Ebost: enquiries@raib.gov.uk
Gwefan: www.raib.gov.uk

Ionawr 2006

Pam fy mod i'n cael fy nghyfweld?

Unig ddiben eich cyfweliad yw rhoi cofnod i'r Arolygydd RAIB o'r hyn a welsoch chi o'r ddamwain neu'r hyn yr ydych yn ei wybod am y digwyddiadau a arweiniodd ati. Dim ond gan RAIB yn ei ymchwiliadau ei hun y bydd y manylion y byddwch yn eu rhoi yn cael eu defnyddio.

Os dymunwch, gallwch gael rhywun gyda chi yn y cyfweliad i roi cefnogaeth emosiynol i chi. Gallant wneud nodiadau os byddwch am iddynt wneud hynny, ond ni fyddant yn cael cymryd rhan yn y cyfweliad.

Ond nid oes raid i chi gael rhywun arall yn bresennol o gwbl os nad ydych am wneud hynny. Chi piau'r dewis.

Beth am fy nghyfrinachedd?

Mae ymchwiliadau RAIB yn hollol annibynnol ar unrhyw ymchwiliadau gan y diwydiant neu rai barnwrol, ac maent yn canolbwyntio'n llwyr ar wella diogelwch.

Yn ôl y gyfraith, ni chaiff RAIB ddatgelu i unrhyw un arall, gan gynnwys yr heddlu, Arolygiaeth Reilffyrdd Ei Mawrhydi (HMRI), eich cyflogwr neu unrhyw awdurdod gorfodi arall, fanylion personol amdanoch chi yng nghyswllt unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn eich datganiad ar unrhyw adeg, oni bai ein bod yn cael ein gorfodi i wneud hynny trwy Orchymyn Llys.

Os oes gennych unrhyw bryderon am hyn, bydd Arolygydd RAIB yn barod iawn i esbonio yn fwy manwl cyn i'ch cyfweliad gychwyn.

Beth fydd yn digwydd ar ôl fy nghyfweliad?

Bydd yr Arolygydd RAIB yn recordio eich cyfweliad neu'n gwneud nodiadau. Os byddwch yn medru darparu gwybodaeth y bydd RAIB yn ystyried sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, bydd crynodeb ysgrifenedig yn cael ei baratoi. Byddwch wedyn yn derbyn copi o'r crynodeb ysgrifenedig, a fydd fel arfer yn cael ei anfon atoch trwy'r post. Gofynnir i chi lofnodi'r crynodeb ysgrifenedig i nodi ei fod yn gofnod cywir o'ch cyfweliad, ac yna ei ddychwelyd at RAIB.

Os byddwch yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau bydd gennych ryddid i wneud hynny ond – gan ddibynnu ar natur y newidiadau – efallai y bydd yr Arolygydd RAIB yn gofyn i chi fynychu cyfweliad arall.

Wrth i ymchwiliad RAIB fynd yn ei flaen, efallai y bydd yr Arolygwyr yn gweld bod arnynt angen siarad â chi eto. Os bydd hyn yn digwydd, bydd aelod o dîm ymchwilio RAIB yn gadael i chi wybod cyn gynted ag sy'n bosibl.

Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth y byddaf yn ei rhoi i'r Arolygydd RAIB?

Pan fydd yr ymchwiliad ar ben, bydd RAIB yn cyhoeddi adroddiad ar y ddamwain. Bydd yr adroddiad yn argymell y camau y mae RAIB yn credu sy'n angenrheidiol i atal damwain debyg a gwella diogelwch y rheilffyrdd.

Gall yr adroddiad ddefnyddio'r wybodaeth y gwnaethoch chi ei rhoi i'r Arolygydd RAIB yn eich cyfweliad. Ond ni fydd yr adroddiad yn nodi bod yr wybodaeth hon gennych chi nac yn ei chysylltu â chi.

Ceir gwybodaeth fanylach am adroddiadau RAIB yn Nhaflen 01 – Cyflwyniad i RAIB.
Lawrlwythwch o www.raib.gov.uk

Rhoddwyd i:

enw a dyddiad;

yng nghyswllt yr ymchwiliad yn;

a ddigwyddodd ar (dyddiad);

Trefnwyd eich cyfweliad ar gyfer:

dyddiad;

amser;

lleoliad;

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwiliad hwn yw:

enw;

and can be contacted on:

teleffon;